# Cynulliad ar yr Hinsawdd
# Ysgolion Dyffryn Ogwen

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

GWYRDDNI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

## CEFNDIR

Mae GwyrddNi yn fudiad gweithredu ar newid hinsawdd sydd wedi ei leoli yn y gymuned ac yn cael ei arwain gan y gymuned. Mae'n dod â phobl ynghyd mewn pum ardal yng Ngwynedd i drafod, dysgu a gweithredu yn lleol ar newid hinsawdd.

Er mwyn canfod mwy am GwyrddNi ewch i'n gwefan:

https://www.gwyrddni.cymru/

Fel rhan o'r gwaith hwn mae GwyrddNi wedi bod yn cydweithio ag ysgolion ardaloedd GwyrddNi i gynnal rhaglen addysg i gyd fynd ag ethos a thema'r gwaith yn y gymuned.

Yn ardal Dyffryn Ogwen rydym wedi bod yn gweithio gydag Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Penybryn, Ysgol Tregarth, Ysgol Bodfeurig, ac yn fwy diweddar Ysgol Llanllechid.

Mae'r rhaglen addysg wedi ei ddylunio gyda chwe chymal:

- Gweithdy yn yr ysgol am Newid Hinsawdd
- Cylchdaith o amgylch y gymuned i brofi rhai o'r datrysiadau hinsawdd sydd ar y gweill yn lleol
- Cynulliad ar yr Hinsawdd
- Cyflwyno canfyddiadau'r Cynulliad Ysgolion i'r Cynulliad Cymunedol
- Gweithredu ar yr hinsawdd
- Dathliad o'r hyn sydd wedi ei gyflawni

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r holl ysgolion sy'n rhan o'r cynllun am eu cydweithrediad brwd.

---

## GWEITHDY

Yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf 2022 buom yn cynnal gweithdy am Newid Hinsawdd gydag ysgolion Dyffryn Ogwen, Penybryn, Tregarth a Bodfeurig.

Nod y gweithdy oedd sicrhau ein bod ni'n:

- Sylwi ar wahanol elfennau o'n cymunedau a sut maent yn gysylltiedig
- Deall beth oedd yr effaith tŷ gwydr
- Deall y cylch carbon
- Deall sut mae llosgi tanwydd ffosil a pheidio edrych ar ôl y byd naturiol yn cynyddu'r effaith tŷ gwydr a thrwy hynny yn achosi cynhesu byd eang.

- Deall mae cynhesu byd eang sy'n achosi'r newid hinsawdd rydym yn ei brofi ar hyn o bryd.
- Ystyried sut mae newid hinsawdd yn effeithio pobl o amgylch y byd gan gynnwys ni yma yng Nghymru.
- Deall byddai canfod ffyrdd o fyw sy'n golygu nad ydym yn llosgi tanwydd ffosil ac yn golygu ein bod yn edrych ar ôl byd naturiol yn gwneud cyfraniad mawr at arafu a lleihau effeithiau newid hinsawdd ar ein cymunedau.
- Teimlo'n gyfforddus yn trafod teimladau ynghylch newid hinsawdd a sylwi fod posib trosi teimladau negatif yn rai positif wrth weithredu.

Dyma rhai lluniau o'r gweithdai ar draws ardaloedd GwyrddNi.



---

## CYLCHDAITH

Yn ystod tymor yr hydref 2022 bu cyfle i blant a phobl ifanc GwyrddNi profi rhai o'r datrysiadau hinsawdd sydd eisoes ar y gweill yn ein cymunedau.

Nod y cylchdeithiau oedd sylwi:

- Ei fod yn bosib ymateb i'r argyfwng hinsawdd.
- Ei fod yn bosib ymateb i'r argyfwng hinsawdd yma yn Nyffryn Ogwen a chael blas ar yr ymatebion sydd wedi eu datblygu hyd yma.
- Nad oes un datrysiad i'r argyfwng hinsawdd ond yn hytrach amryw helaeth o ddatrysiadau.
- Bod ymateb i'r argyfwng hinsawdd yn gymunedol hefyd yn cyfrannu nifer o fuddion eraill i ni fel unigolion ac i'n cymunedau.

Yn Nyffryn Ogwen buom yn ymweld neu gymryd rhan mewn gweithdy gyda:

- Gerddi Ffrancon
- Pantri Pesda
- Beics Ogwen
- Llyfrgell y Petha
- Y car trydan cymunedol
- Coed Meurig
- Hydro Ynni Ogwen

Diolch yn fawr iawn i holl staff a gwirfoddolwyr Partneriaeth Ogwen, Dyffryn Gwyrdd, Ynni Ogwen, ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru am sicrhau llwyddiant y Cylchdeithiau.
















## CYNULLIAD

Cynhaliwyd Cynulliad Ysgolion Dyffryn Ogwen yn Ysgol Dyffryn Ogwen ar y 14eg o Dachwedd 2022.

Mynychwyd gan 50 blant a phobl ifanc o Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Penybryn, Ysgol Tregarth, Ysgol Bodfeurig ac Ysgol Llanllechid.

Nod y cynulliad oedd:


- Ystyried a nodi beth sy'n bwysig inni yn ein cymunedau.
- Gweledigaethu dyfodol lle'r rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ymateb i her yr hinsawdd.
- Datblygu syniadau bydd yn ein helpu cyrraedd y dyfodol yna.

Gwnaethom hyn drwy:

- Fel unigolion, meddwl am a thynnu llun y llefydd yn ein cymuned sydd fwyaf pwysig i ni a'u gosod ar fap o'r dyffryn.
- Fel unigolion, dychmygu dyfodol lle'r rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ymateb i her yr hinsawdd. Rhannu hyn efo'n grŵp er mwyn canfod elfennau o'r weledigaeth oedd gennym mewn cyffredin â gweddill y grŵp. Rhannu'r rhain a'u cofnodi gyda gweddill y Cynulliad fel bod modd creu darlun ar y cyd o'r dyfodol rydym yn ei ddymuno.
- Fel grŵp gweithio ar ddatblygu syniadau fydd yn ein helpu i sicrhau fod elfen benodol o'r weledigaeth yn dod yn wir a'u cofnodi ar pro forma arbennig.








Hoffwn ddiolch i Ysgol Dyffryn Ogwen am gynnal y Cynulliad.

---

## CANFYDDIADAU'R CYNULLIAD

Dyma ganfyddiadau Cynulliad Ysgolion Dyffryn Ogwen.

**Y pethau yn ein cymunedau sy'n bwysig i ni:**
Rhain ydy'r pethau rydym eisiau eu cadw wrth inni ymateb i her yr hinsawdd yn ein cymunedau. Yn ogystal, gallai'r pethau yma ein helpu i symud i'r math o dyfodol rydym yn ei ddymuno.




Y mynyddoedd - mynyddoedd mawr fel y Carneddau a mynyddoedd agosach at adre fel Moelyci.

Y coedwigoedd - yn enwedig coedwigoedd sy'n agos at le da ni'n byw a choedwigoedd cymunedol fel Parc Meurig.

Llefydd inni gael mynd a'r ci am dro.

Lôn Las Ogwen

Parciau Chwarae - yn enwedig rhai Abercaseg, Carneddi a Thregarth.

Caeau Pêl-droed

Clwb Rygbi Bethesda

Plas Ffrancon ac astro Plas Ffrancon

Y chwarel, Bont Twr, y boncan wrth y chwarel, ac Ogwen Bank yn yr haf.

Londis

Ein hysgolion

Ein tai a'n gerddi.

**Ein gweledigaeth o'n cymuned yn 2040:**

Dyma fydd ein cymuned pan fyddwn wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ymateb i her yr hinsawdd.




Fydd ein tai ni'n well, yn fodern a digon mawr. Byddwn yn defnyddio mwy o ddeunyddiau naturiol yn ein tai. Byddwn wedi canfod ffyrdd arloesol o'u cynhesu. Fydd mwy ohonom yn byw yn y coed. Fydd digon o dir gyda bob tŷ i bobl gallu tyfu bwyd eu hunain.

Byddwn yn cynhyrchu trydan drwy ddefnyddio ynni'r haul, dŵr a gwynt.

Byddwn yn tyfu bwyd ein hunain neu fwyta bwyd ffermydd lleol. Byddwn yn bwyta mwy o lysiau a llai o gig. Byddwn wedi canfod ffyrdd i dyfu pethau hollol newydd.

Byddwn yn defnyddio llai o bopeth, yn enwedig plastig. Bydd llai o ffatrïoedd ond fydd y rheini sy'n bodoli wedi eu pweru a hydrogen.

Bydd mwy o goed a blodau gwyllt. Byddwn yn gallu clywed sŵn yr adar. Bydd anifeiliaid mawr megis eirth ac eryr yn nôl yn y Dyffryn. Byddwn wedi canfod ffyrdd o gyd-fyw a bywyd gwyllt ac ni fydd gan yr anifeiliaid ac adar ein hofn.

Bydd yr awyr yn ffres a fydd na ddim llygredd yn ein hafonydd na'r môr.

Byddwn yn symud o gwmpas ar feiciau, beiciau trydan, a cheir trydan. Bydd llai o geir oherwydd bydd bobl yn rhannu ceir. Bydd rhai yn mynd ar gefn ceffyl. Bydd trên magnetig gyda gorsaf ym Methesda. Bydd llawer llai o awyrennau yn yr awyr a fydd y rhai sydd yna'n rhai trydanol.

Bydd ein hysgolion wedi eu gwneud i fyny, byddwn yn gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg yn yr ysgol, ond yn ogystal bydd mwy o erddi gyda blodau a choed yno, byddwn yn dysgu tu allan yn hytrach na thu fewn, a dysgu mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Bydd pawb efo'r swydd maen nhw isio, a hynny yma yn Nyffryn Ogwen.

Bydd digon o glybiau a digwyddiadau i bobl gallu dod at ei gilydd a fydd yr adnoddau yna ar eu cyfer.

Bydd y gymuned yn glos ac yn hapus, fydd pawb yn gyfartal ac yn parchu'i gilydd.

Bydd digon o bobl yn ein trefi a phentrefi a byddwn yn gallu clywed sŵn plant ym mhob man.

**Ein syniadau gweithredu bydd yn ein helpu cyrraedd y dyfodol uchod:**

**Cymuned sy'n rhannu..**
Tyfu Pantri Pesda, agor caffi i fynd gyda'r pantri, a datblygu'r rhwydwaith - gardd gymunedol, banc bwyd, pantri bwyd - yn ymhellach.

Datblygu Llyfrgell y Pethau fel bod mwy o lyfrgelloedd a mwy o bethau i fenthyg e.e. ceir, a sgiliau megis glanhau a choginio.

**Natur..**
Plannu mwy o goed collddail i ddenu adar o bob math.
Bod yn ofalus yn y ffordd yr ydym yn defnyddio coed, a dyfeisio peiriant sy'n gallu troi gwastraff papur yn nol yn goed.
Edrych i mewn i ail-wylltio rhannu o'r dyffryn drwy gyflwyno anifeiliaid mawr megis eirth ac eryrod.


**Ynni adnewyddadwy..**
Y gymuned yn cydweithio gyda ffermwyr i ddatblygu Fferm Solar, mewn cae wrth crossroads Bethesda.
Adeiladu ar brofiad Ynni Ogwen i ddatblygu cynllun Hydro ychwanegol,
Datblygu Parc Egni Cinetig - lle mae'r offer yn creu trydan wrth i'r plant chwarae. Byddai paneli solar yna yn ogystal.

**Tai..**
Insiwleiddio Tai - To a ffenestri
Bydd panel solar ar bob adeilad yn y Dyffryn.
Byddwn wedi dyfeisio dodrefn, er enghraifft gwely dŵr, sy'n cael eu cynhesu gan ddefnyddio paneli solar.

**Trafnidiaeth..**
Byddwn yn ymestyn cynllun Beics trydan/Sgwteri Beics Ogwen.

**Dysgu..**
Dysgu mwy o sgiliau bywyd yn yr ysgol, fel coginio a bwyta'n iach.
Dysgu am arian a chyllido yn yr ysgol, o flwyddyn 7 ymlaen.
Mwy o gyfleoedd i fynd allan i ddysgu yn yr awyr agored - chwarae, ymarfer corff, plannu pethau, ac iechyd meddwl.

**Cyfleoedd hamdden..**
Clwb Dringo Mynydd, unwaith y mis.
Parc anferthol Ogwen - llwybr beics, marchogaeth ceffylau, rounders, pwll nofio tu allan, Gwifren zip, Ffrâm ddringo, Bakgon Battleground, biniau, biniau baw ci a ffiniau, yng nghae Boncs.
Pwll nofio yn ardal Dyffryn Ogwen ar dir Plas Ffrancon.



---

## CYFLWYNO I'R CYNULLIAD CYMUNEDOL

Cyflwynwyd canfyddiadau'r Cynulliad Ysgolion i Gynulliad Cymunedol Dyffryn Ogwen ar yr 20fed o Dachwedd 2022 gan Ela o flwyddyn 8 Ysgol Dyffryn Ogwen.



Roedd y Cynulliad yn falch iawn o glywed barn, dyheadau a syniadau'r plant a phobl ifanc.

*"Roedd o'n braf clywed syniadau'r bobl ifanc o'r ysgolion heddiw, ac roedd o'n ddiddorol gweld sut oedden nhw'n dod at y peth, roedd o'n ymddangos bo' nhw ddim jyst yn meddwl am sut ydan ni'n stopio problem ond sut ydan ni hefyd yn gwneud pethau yn well ar gyfer y dyfodol iddyn nhw."* - Gwynfor, aelod Cynulliad

Defnyddiwyd syniadau'r plant a phobl ifanc fel sail i ddatblygu syniadau'r Cynulliad i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Hinsawdd Dyffryn Ogwen yn ystod y Cynulliad Cymunedol.

---

## CAMAU NESAF

Bydd plant a phobl ifanc, ac ysgolion GwyrddNi yn edrych ymlaen at weld sut fydd syniadau'r plant yn chwarae rhan wrth i'r Cynulliad datblygu cynllun gweithredu hinsawdd ar gyfer y Dyffryn.

Yn ogystal byddwn yn mynd ati i weithredu cymalau olaf y rhaglen addysg sef gweithredu ar yr hinsawdd a dathlu'r hyn sydd wedi ei gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf.

Bydd modd i chi gadw golwg ar y datblygiadau hyn ar safleoedd Cyfryngau Cymdeithasol GwyrddNi.